

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

5/11/2019

Presennol: Dewi Jones, (Cadeirydd y cyfarfod), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2049 Croesawyd pawb a llongyfarchwyd Karl Jones ar ddod yn daid. Derbyniwyd ymddiheuriadau Rhodri Jones a Lindsey Ellis-Edwards.

2050 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2051 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 1af 2019.

2052 Materion y Clerc ac o'r Cofnodion:

- i. 2040 Gohebiaeth gyda NMWTRA - ni chafwyd ymateb i'r cais am ymestyn y llinellau dwbl yn ardal Stryd y Prys. Bydd y Clerc yn ysgrifennu eto.
- ii. 2046 Cerbydau wedi eu parcio mewn mannau anghyfleus - gan na chafwyd ymateb cadarnhaol i gais i symud, cytunwyd i dynnu sylw'r Swyddog Gorfodaeth a'r Adran Priffyrdd
- iii. 2046 Dŵr yn sefyll ar Lwybr Tegid – y broblem heb ei datrys hyd yn hyn.
- iv. 2048 Adroddiad o gyfarfod am y Triathlon – dim i'w adrodd ond mynegwyd bodlonrwydd gyda'r bwriad o gynnal yr achlysur ym mis Medi a chau'r ffordd ar fore Sul yn unig.
- v. Adroddiad o gyfarfod am fioamrywiaeth - cytunwyd i geisio creu cynefinoedd naturiol pan fydd cyfleoedd yn codi.

2053 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Alan Jones Evans a ddywedodd y bydd man parcio ar ben Bwlch y Groes yn cael ei ail-wynebu. Mae wedi trefnu i finiau'r fynwent cael eu gwagio. Mae wedi bod yn trafod y twmpathau cyflymder ac mae pob un o fewn y canllawiau, ond cytunodd y swyddogion fod angen eu gwneud yn fwy gweledol.

2054 Is-bwyllgor y Fynwent: Derbyniwyd adroddiad ac mae trefniadau mewn llaw i dderbyn prisiad arall am y gwaith o symud cyrbau.

2055 Syr O M Edwards: Adroddodd Beryl Hughes Griffiths fod rhai trefniadau eisoes mewn llaw i nodi canmlwyddiant marwolaeth Syr O M Edwards. Cytunodd i ffurfio is-bwyllgor gyda Heledd Jones a Huw Antur i lunio rhaglen o weithgareddau.

2056 Materion Eiddo'r Cyngor: Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones: mae Lindsey Ellis-Edwards yn parhau i chwilio am grantiau digonol i wella'r toiledau.

2057 Materion ariannol: Cytunwyd i dalu'r anfoneb i Gyngor Gwynedd am waith yr Archwilydd Mewnol, ac i dalu aelodaeth SLCC (ar y cyd gyda Chynghorau'r Bala a Llangywer).

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

MEWNOL: Trafodwyd dyfynbrisiau gwaith Llwybr y Cei (ar y cyd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri) a chytunwyd i'r Cadeirydd gysylltu i gynig y gwaith i'r ymgeisydd.

2058 Un Llais Cymru: Adroddodd Huw Pierce Roberts iddo gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod da yn Nolgellau pryd yr eglurodd swyddog Parc Cenedlaethol Eryri'r drefn o ymateb i geisiadau cynllunio. Anogwyd Cynghorau i fod yn fanwl wrth wneud sylwadau. Diolchwyd iddo am ei adroddiad.

2059 Partneriaeth Penlllyn: Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones. Derbyniwyd gwahoddiad i Noson Gymdeithasol yn yr Henblas 14/11/19.

2060 Gohebiaeth:

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd cais NP5/71/93B Nant Hir, Cynllwyd am estyniad i ochr y tŷ.
- 2. Gwynedd:** Derbyniwyd gwahoddiad i agoriad swyddogol Ysgol Godre'r Berwyn 8/11/19
- 3. Cynefin:** Derbyniwyd gwybodaeth fod 7 Maesypandy yn rhydd i'w osod.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/12/19 yn y Neuadd Bentref

Amser gorffen: 8.30pm